

Dyddiad cyhoeddi: 10 Tachwedd 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Derbyniwch ein hymddiheuriad diffuant am yr amser a gymerwyd i ateb eich ymholiad cwsmer dyddiedig 23 Awst 2021. Rydym yn gwerthfawrogi eich amynedd yn fawr. Deliwyd â'ch cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac yn unol â'n polisi mynediad at wybodaeth.

### Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:

Dewis y Gŵyn	Fy nhaith ar y trêrn
Dyddiad y Daith	2021-08-23
Yr orsaf y gwnaethoch adael ohoni	Manceinion Piccadilly
Yr orsaf roeddech yn teithio iddi	Caerdydd Canolog
Amser roedd i fod i adael	12:31
Os bu oedi gyda'ch taith, rhowch wybod i ni faint	1-15 munud

*“Roeddwn i ar y trêrn uchod heddiw: O Fanceinion, dim ond lle i sefyll oedd ar gael ac yn Crewe, gan fod pob yn gadael gŵyl yn Lerpwl, gwasgodd llawer mwy o bobl ymlaen ar y trêrn, gan ei wneud yn gyfyng ac yn anghyfforddus iawn. Ar ben hyn, doedd system aerdymheru'r cerbyd ddim yn gweithio. Er bod staff TrC wedi darparu potel o ddŵr yn ystod y daith, rwy'n poeni a ddylai'r trêrn fod wedi cael ei redeg o gwbl. Mewn amgylchiadau cyfyng iawn, gyda'r rhan fwyaf o bobl ddim hyd yn oed yn gwisgo masgiau (a doedd dim i'w hatgoffa i wneud hynny), roedd hyn yn gwneud ffars o'ch rhybuddion covid a'ch arwyddion ar y trêrn yn gofyn i bobl gadw pellter cymdeithasol o 2m!!! Roedd yna ryw lefel o ddiogelwch gan Greenman yn y Fenni, ond roeddent yn dal i ganiatáu'r trêrn i orlenwi'n sylweddol. Ni ddylai'r trêrn hwn fod wedi cael ei redeg oherwydd diffyg system aerdymheru a dylai eich staff fod wedi bod yn fwy ymwybodol o'r amodau cyfyng, ac ni ddylent fod wedi gadael i'r trêrn fynd mor orlawn. Byddwn ni'n falch o weld eich asesiad risg o'r sefyllfa hon er mwyn i mi allu ei drafod gyda fy Aelod Seneddol/Aelod o'r Senedd.*

*Pam wnaethoch chi barhau i redeg trêrn diffygiol, gyda system aerdymheru ddiffygiol? Pam wnaethoch chi adael i'r trêrn fynd mor orlawn fel nad oedd yn glynu wrth eich arwyddion Cadw Pellter Cymdeithasol 2m eich hun ar y trêrn. Pam na wnaeth eich staff atgoffa teithwyr o'r angen i wisgo masgiau wyneb pan ddaeth y trêrn i Gymru? A wnewch chi anfon copi o'ch Asesiad Risg ataf ar gyfer y math yma o sefyllfa.”*

### Atebion i'ch Cwestiynau:

#### 1. Pam wnaethoch chi barhau i redeg trêrn diffygiol, gyda system aerdymheru ddiffygiol?

Mae'r trêrn dan sylw yn un class 175 ac mae'n cael ei gynnal a'i gadw gan Alstom yn y depo yng Nghaer. Rydym yn amau nad oedd y modiwl aerdymheru yn gallu ymdopi â'r tymheredd amgylchynol uwch ar drên llawn gyda phobl yn sefyll, a'i fod wedi diffodd yn awtomatig i ddiogelu'r system. Riportwyd y nam cyn gynted ag y daeth yn amlwg (23 Awst - dyddiad eich ymholiad) a chafodd y trêrn ei ddychwelyd i ddepo Caer i'w drwsio cyn gynted â phosibl ar yr un noson. Profwyd y system aerdymheru ond canfuwyd ei bod yn gweithio bryd hynny. Fodd bynnag, cafodd y modiwl aerdymheru

ei ddisodli fel rhagofal i atal rhagor o fethiannau yn y system. Hyd yma, ni chafwyd unrhyw adroddiadau pellach am system aerdymheru ddiffygiol ar yr uned dan sylw.

**2. Pam wnaethoch chi adael i'r trên fynd mor orlawn fel nad oedd yn glynu wrth eich arwyddion Cadw Pellter Cymdeithasol 2m eich hun ar y trên.?**

Newidiodd y cyfreithiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru ar 7 Awst ac, o'r herwydd, nid oedd unrhyw ofynion cadw pellter cymdeithasol ar ddyddiad eich taith. Mae'n debygol ein bod yn aros i arwyddion cadw pellter cymdeithasol gael eu tynnu i lawr ar y pryd.

**3. Pam na wnaeth eich staff atgoffa teithwyr o'r angen i wisgo masgiau wyneb pan ddaeth y trên i Gymru?**

Diogelwch yw un o'n prif flaenoriaethau, ac mae hynny wedi bod yn wir erioed, a drwy gydol y pandemig, rydym wedi rhoi llawer o fesurau ar waith i ddiogelu ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid. Er bod newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru ar 7 Awst wedi dod â gofynion cadw pellter cymdeithasol i ben, roedd y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yn dal mewn grym ar gyfer y rheini nad oeddent wedi'u heithrio. Er mwyn helpu ein cwsmeriaid i gadw at y gofyniad hwn, rydym wedi cyfathrebu'n dro ar ôl tro â'n cwsmeriaid drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill fel hysbysebion radio a darllediadau newyddion. Mae ein hymgyrch Teithio'n Saffach, a lanswyd gennym yn ystod cyfnod cynnar y pandemig yn 2020, yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cwsmeriaid; ac mae ein gwiriwr capasiti yn caniatáu i gwsmeriaid wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch pryd i deithio ar sail pa mor brysur mae pob gwasanaeth yn debygol o fod.

Gan fod angen gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn ôl y gyfraith, mae gennym raglen o gyhoeddiadau gan y goruchwyliwr, ac rydym wedi cynyddu hyn yn ddiweddar wrth i nifer y teithwyr gynyddu. Yn anffodus, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n gwisgo gorchuddion wyneb, ac mae ein timau diogelwch yn gweithio'n agos gyda phartneriaid o'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i herio'r unigolion hyn. Rôl ein goruchwyliwr yw atgoffa teithwyr o'r gofynion yn unig. Mae cyfran fawr o'r rheini sy'n cael eu herio yn hawlio esemptiad ac oherwydd nad oes gennym hawl gyfreithiol i ofyn am dystiolaeth, mae'n rhaid i ni dderbyn yr hawliadau hyn. Mae hefyd yn werth nodi nad oes rhaid i bobl wisgo gorchudd wyneb wrth fwyta neu yfed ar wasanaethau cyhoeddus.

I'ch sicrhau chi, rydym yn parhau i weithio'n galed i orfodi'r gofyniad hwn. Rydym yn atal 100 o bobl bob wythnos rhag teithio ar ein gwasanaethau am beidio â chydymffurfio, ac rydym yn parhau i ddefnyddio'r ymgyrch Teithio'n Saffach i addysgu ein teithwyr, yn enwedig yn ystod oriau teithio brig a digwyddiadau mawr. Rydyn ni hefyd yn cydnabod y dryswch ymysg rhai pobl o ran pryd a lle mae angen gorchudd wyneb, ac yn ystod digwyddiad rygbi'r Chwe Gwlad yng Nghaerdydd yn ddiweddar, fe wnaethom roi 3000 o orchuddion wyneb i gefnogi teithio diogel.

**4. A wnewch chi anfon copi o'ch Asesiad Risg ataf ar gyfer y math yma o sefyllfa.**

Mae copi o'n hasesiad risg strategol wedi'i atodi i'r e-bost hwn.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

Yn gywir,

## **Trafnidiaeth Cymru**

### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr hwn. Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".